# LlC25-43

# PYSGODFEYDD, CYMRU

## DEDDF ADNODDAU DŴR 1991

## CADARNHAU IS-DDEDFAU

# Cadarnhau Is-Ddeddfau Eogiaid a Brithyllod y Môr (Gwahardd Pysgota â Rhwydi) (Afon Dyfrdwy) (Cymru) 2025

Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru ("CNC") wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru gadarnhau Is-Ddeddfau Eogiaid a Brithyllod y Môr (Gwahardd Pysgota â Rhwydi) (Afon Dyfrdwy) (Cymru) 2025 a wnaed gan CNC ar 5 Rhagfyr 2024.

Wrth arfer y pwerau a roddir gan baragraffau 2 a 3(1) o Atodlen 26 i Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 ac a ymddiriedir ynddynt Bellach, mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu cadarnhau Is-Ddeddfau Eogiaid a Brithyllod y Môr (Gwahardd Pysgota â Rhwydi) (Afon Dyfrdwy) (Cymru) 2025, yn ddarostyngedig i'r addasiadau a wnaed gan yr Offeryn hwn.

Yn unol â pharagraff 2(1) o Atodlen 26 i Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, mae CNC wedi cydsynio i'r addasiadau.

**Cadarnhau a dod i rym**

**1.** Mae Gweinidogion Cymru yn cadarnhau Is-Ddeddfau Eogiaid a Brithyllod y Môr (Gwahardd Pysgota â Rhwydi) (Afon Dyfrdwy) (Cymru) 2025 ("yr Is-Ddeddfau") yn ddarostyngedig i'r addasiadau ym mharagraffau 3 i 5 o'r Offeryn hwn.

**2.** Daw'r Is-Ddeddfau i rym ar 1 Medi 2025.

**Addasiadau**

**3.** Mae'r Is-ddeddfau wedi eu haddasu yn unol â pharagraffau 4 a 5.

**4.** Yn lle is-ddeddf 4 rhodder—

> **"Is-ddeddf 4 – Gwahardd pysgota â rhwydi are gyfer eogiaid neu frithyllod y môr ar Afon Dyfrdwy**
>
> Yn Is-ddedfau Rhwydo Eogiaid a Brithyllod y Môr 1995, hepgorer is-ddeddf 5(b)(i)."

**5.**—(1) Mae'r Atolen wedi ei haddasu fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1, yn y testyn Cymraeg—

(a) yn is-baragraff (a)—

(i) yn lle ""afonydd Dyfrdwy a Chlwyd"" rhodder ""Rivers Dee and Clwyd"";

(ii) yn lle ""afon Clwyd"" rhodder ""River Clwyd"";

(b) yn is-baragraff (b), yn lle ""yn afon Dyfrdwy"" rhodder ""the River Dee,"";

(c) yn lle is-baragraff (c) rhodder—

"(c) Yn lle paragraff (d)(iv)(e) o Is-ddeddf 5, rhodder—

"(e) In the Rivers Teifi and Towy, no draft net shall be shot or paid out from any point within 91 metres from the point at which any draft net is being or had been drawn in and landed until after the expiration of 15 minutes from the time when such last mentioned net has been fully drawn in and landed."".

(3) Ym mharagraff 1(b), yn y testyn Saesneg, yn lle ""in the River Dee"" rhodder ""the River Dee,"".

(4) Ym mharagraff 2, yn y testyn Cymraeg, yn lle ""afon Dyfrdwy;"" rhodder ""River Dee;"".

*Huw Irranca-Davies*
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru
27 Awst 2025